
# Yr her:

Yn ystod gwyliau'r Pasg, wnaethoch dderbyn hedyn hudol gan Mr Davies. Hoffwn i chi blannu'r hedyn yma'n ofalus gan sicrhau ei fod yn cael digon o ddŵr a golau haul. Beth am dynnu lluniau o'r planhigyn gan ddefnyddio camera neu wrth law? Beth am gofnodi tyfiant y planhigyn? Peidiwch anghofio ei fwydo! Edrychwch ar ei ôl! Edrychwn ymlaen at weld y planhigion yn tyfu a'ch arsylwadau.





## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth sydd angen ar blanhigyn i dyfu?
- Beth yw rhannau gwahanol y planhigyn?
- Sawl planhigyn gwahanol gallwch chi ddarganfod ar daith gerdded/yn yr ardd?
- Gallwch chi ddidoli planhigion/blodau gwahanol?
- Beth yw eich hoff flodyn? Pam?
- Pa flodau mae trychfilod yn hoffi? Pam?
- Sawl trychfil ydych chi'n gallu gweld ar eich taith gerdded/yn yr ardd?

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Nid da lle gellir gwell

# Cynllun pythefnos: Natur/Tyfu (Bl 3 & 4)

## Rhaid gwneud… / Must do…

| | | |
|---|---|---|
| • Dysgu geiriau aml-ddefnydd – rhestr o 200 o eiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer. (Gallwch ddefnyddio gêm Spell Blast ar J2Blast hefyd).<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer Tablau Mathemateg (cofiwch i ddefnyddio TTBlast ar J2Blast i ymarfer a chwarae yn erbyn eraill)<br>Bl 3 – 2, 3, 4, 5 a 10<br>Bl 4 – 2, 3, 4, 5, 6, 8 a 10<br>• Adio a thynnu<br>Bl 3 i ddefnyddio rhifau 2 ddigid ee 67 + 45 = / 86 – 34 =<br>Bl 4 i ddefnyddio rhifau 3 digid ee 467 + 382 =<br>• Adnabod a chyfri arian, talu am eitemau mewn nifer o ffyrdd<br>• Darllen yr amser fesul 5 munud ac yna pob munud | <u>Cadw'n heini</u> – beth am ymuno â Joe Wicks' yn fyw? Sesiynau 9:00 – 9:30am ar Youtube (cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br><u>Helpu</u> – Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd i ginio, helpu yn yr ardd ayyb.<br><u>Trafod</u> - Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo. |

## Dylech wneud… / Should do…

| | Gorsaf Iaith | | Cyfri a Chyfrifo | | Cwtsh Creadigol |
|---|---|---|---|---|---|
| ★ | Gallwch chi greu geiriadur am blanhigion a natur. Ydych chi'n gallu ysgrifennu rhestr o eiriau gan ddefnyddio pob llythyren o'r wyddor? | ★ | Ewch ar helfa planhigion a blodau. Cyfrwch y planhigion. Cofnodwch eich darganfyddiadau gan greu graff bar ar HWB. | ★ | Gallwch chi greu daliwr bwyd adar allan o ddeunydd wedi'u ail-gylchu? Ble ydy'r lle orau i'w rhoi yn eich gardd a pham? |
| ★★ | Ysgrifennwch set o gyfarwyddiadau ar sut i blannu hedyn. Cofiwch ddefnyddio geiriau wch fel RHOWCH, PALWCH, GOSODWCH, ARLLWYSWCH. | ★★ | Mesurwch uchder y planhigion sydd yn eich gardd chi i'r cm agosaf. Beth am i'r hanner cm agosaf? Ydych chi yn gallu defnyddio mm hefyd? | ★★ | Defnyddiwch adnoddau naturiol i greu darn o waith celf yn arddull Andy Goldsworthy. Gallwch ddefnyddio petalau, brigau, gwair ayyb. |
| ★★★ | Esguswch eich bod yn bryfyn. Ysgrifennwch gofnod dyddiadur yn disgrifio'ch diwrnod. Cofiwch ysgrifennu yn yr amser gorffennol a siarad am y pethau pwysig a ddigwyddodd yn ystod y dydd. | ★★★ | Creuwch gorsaf ddŵr ar gyfer eich planhigion yn yr ardd. Cofiwch bod 1000 mililitr yn 1 litr. Mesurwch faint o ddŵr rydych yn rhoi i'ch planhigion. | ★★★ | Gwyliwch y rhagolygon tywydd ar y teledu. Gallwch chi fod yn ddyn/menyw tywydd a recordio'ch hunan yn darlledu'r rhagolygon tywydd ar gyfer y diwrnod? |

## Gallaf wneud… / Can do…

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddio diweddaraf<br>ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp<br>Science experiment<br>Science Investigations – STEM website stemsational.com<br>Adnoddau Twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd CVDTWINKLHELPS | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref<br>Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl – fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com |